Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yng Nghymru

HM Prison & Probation Service in Wales

BWRDD CYFIAWNDER TROSEDDOL CYMRU GYFAN
System cyfiawnder troseddol: gweithio gyda'n gilydd er mwyn y cyhoedd

ALL WALES CRIMINAL JUSTICE BOARD
Criminal Justice System: working together for the public

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# 2018 - 2023

# Fframwaith i gefnogi newid positif ar gyfer y rheini sydd mewn risg o droseddu yng Nghymru




Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi

Cymeradwywyd gan Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan

28/04/2017

## Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Rhagair | Tudalen 2 |
| 2. | Canllaw cyflym i grwpiau blaenoriaeth a dangosyddion | Tudalen 4 |
| 3. | Rhagarweiniad | Tudalen 6 |
| 4. | Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi | Tudalen 7 |
| 5. | Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan | Tudalen 7 |
| 6. | Bwrdd Rheoli Integredig Troseddwyr Cymru | Tudalen 8 |
| 7. | Grŵp Lleihau Llwybrau Aildroseddu Cymru | Tudalen 8 |
| 8. | Gweithio mewn Partneriaeth | Tudalen 8 |
| 9. | Cynlluniau Heddlu a Throsedd | Tudalen 9 |
| 10. | Diwygio Carchardai | Tudalen 9 |
| 11. | Symud Cymru Ymlaen 2016-2021 | Tudalen 10 |
| 12. | Cyd-destun Cymreig | Tudalen 10 |
| 13. | Rhesymau dros y Fframwaith hwn | Tudalen 11 |
| 14. | Sut fydd Cymru yn gwella ac yn llwyddo | Tudalen 12 |
| 15. | Anghenion unigol troseddwyr | Tudalen 13 |
| 16. | Cydlyniant Cymunedol | Tudalen 14 |
| 17. | Rhesymau dros Droseddu ac Aildroseddu | Tudalen 14 |
| 18 | Pam y mae Meysydd Blaenoriaeth wedi eu hadnabod | Tudalen 14 |
| 19. | Meysydd Blaenoriaeth – tystiolaeth o'r angen, camau i'w gwella a dangosyddion effeithiolrwydd | |
| • | A. Merched yn y System Cyfiawnder Troseddol | Tudalen 15 |
| • | B. Cyflawnwyr Camdriniaeth Ddomestig | Tudalen 17 |
| • | C. Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog | Tudalen 19 |
| • | D. Oedolion Ifanc/Unigolion sy'n Gadael Gofal | Tudalen 21 |
| • | E. Teuluoedd Troseddwyr | Tudalen 23 |
| • | F. Grwpiau Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig | Tudalen 25 |
| 20. | Trefn Lywodraethu'r Fframwaith | Tudalen 26 |


**Rhagair gan Alun Davies, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru**



Er nad yw'r cyfrifoldeb cyffredinol dros bolisi cyfiawnder troseddol wedi ei ddatganoli, mae Llywodraeth Cymru wedi dangos ymrwymiad bob amser i leihau troseddu ac aildroseddu yng Nghymru. Roedd Strategaeth Lleihau Aildroseddu flaenorol Cymru yn llwyddiant gan fod sefydliadau yng Nghymru - yn rhai datganoledig a heb eu datganoli - a sefydliadau yn y trydydd sector, wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth.

Bydd sicrhau mwy o gydweithio ar draws Cymru yn lleihau'r galw ar wasanaethau a ddarperir i gleientiaid cyfiawnder troseddol sydd mewn argyfwng, drwy ganolbwyntio mwy ar ymyrryd yn gynnar. Bydd hyn hefyd yn ein helpu i reoli'r galw ar wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i bobl nad ydynt yn y system cyfiawnder troseddol. Drwy leihau troseddu ac aildroseddu, gallwn gadw ein cymunedau'n fwy diogel, sef un o’r ymrwymiadau yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru.

Rwy'n falch y bydd y Fframwaith pum mlynedd newydd yn hwyluso cydweithio er mwyn gostwng ymhellach nifer y troseddwyr sy'n dod i mewn i'r system cyfiawnder troseddol, yn ogystal â helpu troseddwyr i beidio ag aildroseddu, a chadw ein cymunedau'n ddiogel.



Alun Davies,
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus,
Llywodraeth Cymru




**Rhagair gan Dr Phillip Lee, yr Is-ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder Ieuenctid, Dioddefwyr, Troseddwyr Benywaidd ac Iechyd Troseddwyr**

Ar 1 Ebrill 2017, cafodd y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr ei ddisodli gan Wasanaeth Prawf a Charchardai Ei Mawrhydi (HMPPS), fel asiantaeth weithredol i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae prif ddiben HMPPS yn dal yr un fath, sef gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu'r cyhoedd ac i atal dioddefwyr trwy newid bywydau. Ond ni all gyflawni ei amcanion heb weithio mewn partneriaeth gydag adrannau eraill y llywodraeth a sefydliadau eraill.

Dyna pam y mae HMPPS yng Nghymru wedi cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r Fframwaith hwn ar ran Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan. Mae'r Fframwaith yn adeiladu ar y berthynas gref sy'n bodoli'n barod yng Nghymru rhwng yr holl sefydliadau cyfiawnder troseddol, y gwasanaethau statudol datganoledig a'r sector gwirfoddol ac mae'n annog parhau i gydweithio er mwyn atal troseddu, adsefydlu'r rhai sydd yn y system cyfiawnder troseddol yn barod a chefnogi teuluoedd troseddwyr.

Gyda'n gilydd, rwy'n credu y gallwn wneud gwahaniaeth.



Dr Phillip Lee, yr Is-ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder Ieuenctid, Dioddefwyr, Troseddwyr Benywaidd ac Iechyd Troseddwyr

# Canllaw cyflym i grwpiau blaenoriaeth

## A. Lleihau nifer y merched yn y system cyfiawnder troseddol

Deall y set arbennig o anghenion sydd gan merched sy'n troseddu

Cynnal asesiad holistig o'r angen, ar y pwynt cyswllt cynharaf â'r System Cyfiawnder Troseddol

Gwella llwybrau cyfeirio a darparu ymyraethau yn amserol

Defnyddio cyfleoedd i alinio ailgomisiynu â model Dull System Gyfan, a fydd yn galluogi newid cynaliadwy yn y tymor hir

## B. Herio cyflawnwyr camdriniaeth ddomestig; mynnu eu bod yn atebol am eu gweithredoedd

Canolbwyntio ar amddiffyn a chofnodi mecanweithiau atal ac ymyrraeth gynnar i newid agweddau

Dadansoddi'r adnoddau cyfredol a ddefnyddir gan bartneriaid ar draws Cymru sy'n gweithio gyda chyflawnwyr

Gwella llwybrau cyfeirio a chryfhau ymyraethau a threfniadau partneriaeth

## C. Gwella Darpariaeth ar gyfer Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog

Sefydlu'r broses o gasglu a rhannu data rhwng sefydliadau yng Nghymru a chomisiynu ymchwil i ddeall anghenion Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog sy'n cael cysylltiad â'r System Cyfiawnder Troseddol

Cyfeirio troseddwyr at elusennau a gwasanaethau arbenigol ar gyfer Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog ym mhob pwynt o fewn y System Cyfiawnder Troseddol pan fo'n ymarferol

Hyrwyddo mynediad at driniaeth iechyd meddwl neu driniaeth anhwylder straen ar ôl trawma trwy ddarparwyr gofal iechyd

Ystyried ymarferoldeb ymyraethau pwrpasol i gyflawnwyr cam-drin ddomestig sy'n Gyn-aelodau'r Lluoedd Arfog ac/neu eu teuluoedd

Sicrhau bod gan yr holl sefydliadau perthnasol fecanweithiau adnabod a chofnodi cadarn mewn lle

## D. Darparu cefnogaeth i Oedolion Ifanc/Unigolion sy'n Gadael Gofal

Sicrhau bod troseddwyr ac aildroseddwyr yn cael mynediad at gynlluniau sy'n darparu strwythur a chefnogaeth ychwanegol yn ystod y broses o drosglwyddo o'r carchar i'r gymuned

Adnabod rhaglenni strwythuredig a gwasanaethau o'r dechrau i'r diwedd sy'n gwella sgiliau meddwl, rheoli straen, ymlacio ac ymwybyddiaeth ofalgar, gyda'r nod o ddatblygu cysylltiadau cymdeithasol cadarnhaol gyda chefnogaeth gan sefydliadau cymunedol, cynlluniau mentora a chynlluniau cefnogi

Adnabod yr unigolion sy'n gadael gofal sydd yn y system i sicrhau bod yr awdurdodau cyfrifol yn chwarae rhan yn y prosesau cynllunio ar gyfer datblygu darpariaeth addysg a hyfforddiant a'u helpu i ddod o hyd i waith

Hwyluso gofod diogel ar gyfer troseddwyr i rannu eu profiadau o fod mewn gofal

## E. Cefnogi teuluoedd troseddwyr ar ôl dedfrydu

Gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd â rheini sy'n droseddwyr yn cael eu hadnabod pan fydd y rhiant yn cael ei arestio, yn cael ei ddedfrydu neu pan fydd yn cael ei garcharu.

Ystyried ymarferoldeb cynnal asesiadau effaith plant ar y pwynt dedfrydu

Rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid amlasiantaethol i sicrhau bod yr ymyraethau perthnasol ar gael pan fo'r angen

Defnyddio'r holl gefnogaeth i rieni, cefnogaeth i blant a gwasanaethau cefnogol i deuluoedd sy'n cael eu darparu gan yr holl bartneriaid perthnasol

Cynnal peilot a gwerthuso defnyddio Asesiadau Effaith Plant yn y llys

Ymgysylltu ag asiantaethau perthnasol ac elusennau plant wrth ddatblygu gwasanaethau i deuluoedd troseddwyr yng Nghymru

## F. Grwpiau Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME)

Sicrhau bod cefnogaeth gan gyfoedion a chynlluniau mentora yn adlewyrchu amrywiaeth y poblogaethau y maent am eu gwasanaethu

Sicrhau bod cefnogaeth addas i rieni a theuluoedd yn hysbys ac yn cael ei defnyddio

Monitro lefelau ymgysylltu unigolion BAME gyda gwasanaethau iechyd, addysg a chyflogaeth sydd wedi'u comisiynu ar y cyd, sy'n anelu i leihau aildroseddu ac adnabod lle cheir cynrychiolaeth annigonol.

Archwilio'r rhesymau dros gynrychiolaeth annigonol a datblygu strategaethau partneriaeth i gefnogi rhagor o ymgysylltu â gwasanaethau a datblygu gwasanaethau i gwrdd ag anghenion unigol troseddwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig

# Canllaw cyflym i grwpiau blaenoriaeth

## A. Lleihau nifer y merched yn y system cyfiawnder troseddol

Nifer y merched sy'n dechrau dedfryd o garchar neu ddedfryd gymunedol ar unwaith

Cyfraddau cwblhau Gorchmynion Cymunedol, Gorchmynion Dedfryd Ohiriedig a Thrwyddedau yn llwyddiannus

Cyfradd o ferched sy'n aildroseddu

Nifer y troseddau ar gyfartaledd fesul pob dynes sy'n aildroseddu

Nifer a chyfran y merched sy'n cyflawni dedfryd o garchar neu dedfryd gymunedol gyda phob un o'r anghenion troseddol (yn seiliedig ar yr asesiad OASys diweddaraf)

Nifer a chyfran o ferched sy'n defnyddio gwasanaethau cefnogol dargyfeirio.

## B. Herio cyflawnwyr camdriniaeth domestig; mynnu eu bod yn atebol am eu gweithredoedd

Nifer y cyflawnwyr cam-drin domestig sy'n dechrau dedfryd o garchar neu ddedfryd gymunedol ar unwaith

Cyfraddau cwblhau Gorchmynion Cymunedol, Gorchmynion Dedfryd Ohiriedig a Thrwyddedau yn llwyddiannus

Cyfraddau aildroseddu ymysg cyflawnwyr cam-drin domestig

Nifer y troseddau ar gyfartaledd fesul pob un unigolyn sy'n aildroseddu

Nifer yr erlyniadau ac euogfarnau llwyddiannus mewn achosion trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol gan gynnwys Trais ar sail Anrhydedd, Caethwasiaeth Fodern, Stelcio ac Aflonyddwch

Nifer a chyfran cyflawnwyr cam-drin domestig sy'n cymryd rhan mewn ymyraethau

## C. Gwella Darpariaeth ar gyfer Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog

Nifer Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog sy'n dechrau dedfryd o garchar neu ddedfryd gymunedol

Cyfraddau cwblhau Gorchmynion Cymunedol, Gorchmynion Dedfryd Ohiriedig a Thrwyddedau yn llwyddiannus

Cyfraddau aildroseddu ymysg Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog

Nifer y troseddau ar gyfartaledd fesul pob un unigolyn sy'n aildroseddu

Nifer a chyfran Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog sy'n cyflawni dedfryd o garchar neu dedfryd gymunedol gyda phob un o'r anghenion (yn seiliedig ar yr asesiad OASYS diweddaraf)

Nifer y cyfeiriadau gan yr Heddlu, Darparwyr Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf i elusennau ar gyfer Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog

## D. Darparu cefnogaeth i Oedolion Ifanc/Unigolion sy'n Gadael Gofal

Nifer yr oedolion ifanc sy'n dechrau dedfryd o garchar neu ddedfryd gymunedol ar unwaith

Cyfraddau cwblhau Gorchmynion Cymunedol, Gorchmynion Dedfryd Ohiriedig a Thrwyddedau yn llwyddiannus

Cyfraddau aildroseddu ymysg oedolion ifanc

Cyfraddau aildroseddu ymysg unigolion sy'n gadael gofal

Nifer y troseddau ar gyfartaledd fesul pob unigolyn sy'n aildroseddu

Nifer a chyfran yr oedolion ifanc sy'n cyflawni dedfryd o garchar neu ddedfryd gymunedol sydd â phob un o'r anghenion (yn seiliedig ar yr asesiad diweddaraf sydd ar gael)

Nifer/cyfran yr oedolion ifanc sy'n cymryd rhan mewn ymyraethau

## E. Cefnogi teuluoedd troseddwyr ar ôl dedfrydu

Nifer y troseddwyr gyda phlant yn cychwyn dedfryd yn y carchar neu ddedfryd gymunedol

Cyfraddau cwblhau Gorchmynion Cymunedol, Gorchmynion Dedfryd Ohiriedig a Thrwyddedau yn llwyddiannus

Cyfraddau aildroseddu ymysg troseddwyr sydd â phlant

Nifer y troseddau ar gyfartaledd fesul pob unigolyn sy'n aildroseddu

Nifer sy'n cymryd rhan mewn ymyraethau

## F. Grwpiau Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME)

Nifer y troseddwyr BAME yn cychwyn dedfryd yn y carchar neu ddedfryd gymunedol

Cyfraddau cwblhau Gorchmynion Cymunedol, Gorchmynion Dedfryd Ohiriedig a Thrwyddedau yn llwyddiannus

Cyfraddau aildroseddu ymysg troseddwyr BAME

Nifer y troseddau ar gyfartaledd fesul pob unigolyn sy'n aildroseddu

Nifer/cyfran yr unigolion BAME sy'n cyflawni dedfryd o garchar neu ddedfryd gymunedol sydd â phob un o'r anghenion (yn seiliedig ar yr asesiad OASys diweddaraf sydd ar gael)

***Rhagarweiniad***

Cafodd y Fframwaith hwn ei ddatblygu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi ar ran Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan. Pwrpas y Fframwaith yw gwella gwasanaethau i'r rhai hynny sydd eisoes yn y system cyfiawnder troseddol neu sydd mewn risg o fynd i mewn iddi. Bydd hefyd yn helpu i leihau'r galw ar wasanaethau drwy ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac integreiddio gwasanaethau ymhellach er mwyn defnyddio adnoddau cyfyngedig y gwasanaethau cyhoeddus yn fwy effeithiol.

Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i rym yng Nghymru yn Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, feddwl mwy am y tymor hir, i weithio'n well â phobl, â chymunedau ac â'i gilydd, ac i geisio atal problemau a meithrin dull gweithredu cyson – er mwyn ein helpu i greu Cymru y mae pob un ohonom eisiau byw ynddi nawr, ac yn y dyfodol.

Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio yn darparu fframwaith clir i gefnogi a llywio penderfyniadau a fydd yn sail i bopeth y mae Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus eraill yn ei wneud. Cafodd y nodau llesiant, sy'n nodi'r weledigaeth ar gyfer y Gymru a garem, eu llunio ar sail proses ymgynghori eang gyda'r cyhoedd: http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/section/4/enacted

O dan y Ddeddf, mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus gyfrannu i'r eithaf at y nodau llesiant er mwyn gwneud yn siŵr eu bod, wrth wneud penderfyniadau, yn ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl Cymru yn awr ac yn y dyfodol.

Er nad yw cyfiawnder troseddol wedi ei ddatganoli i Gymru, mae'n debygol y bydd y broses o roi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar waith, ynghyd â gwaith cynllunio, blaenoriaethu a gweithgarwch y Byrddau Gwasanaethau Lleol, yn effeithio ar ganlyniadau cyfiawnder troseddol. Ar yr un pryd, gallai penderfyniadau polisi ac ymarfer allweddol a wneir gan bartneriaid cyfiawnder troseddol gael yr un effaith ar nodau ac amcanion y Byrddau Gwasanaethau Lleol ar gyfer gwasanaethau sydd wedi eu datganoli, gan gynnwys iechyd, tai ac addysg.

Felly, mae'r Fframwaith yn hyrwyddo gwell integreiddiad rhwng sefydliadau sydd wedi'u datganoli a'r rhai sydd heb eu datganoli, a sefydliadau trydydd sector, i sicrhau gwell llesiant i bobl a chymunedau yng Nghymru.

### *Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi*

Mi wnaeth y Weinyddiaeth Cyfiawnder sefydlu asiantaeth weithredol newydd o'r enw Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi ar 1 Ebrill 2017, a olygodd bod y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr wedi ei ddisodli. Bydd y Gwasanaeth yn gyfrifol am gyflwyno rhaglen llywodraeth y DU i wella'r ffordd yr ydym yn diwygio troseddwyr er mwyn amddiffyn y cyhoedd a thaclo lefelau annerbyniol o aildroseddu. Bydd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yn llwyr gyfrifol am holl weithrediadau'r gwasanaeth carchardai a phrawf. Bydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau, datblygu polisïau yn y dyfodol a bydd yn gyfrifol am osod safonau a chraffu ar berfformiad y gwasanaeth carchardai a phrawf.

Bydd Cyfarwyddwr Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yng Nghymru yn parhau i fod â chyfrifoldeb uniongyrchol am y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Carchardai'r Sector Cyhoeddus a CEM Berwyn a hefyd cyfrifoldeb am reoli contractau Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru (CRC) a CEM Parc.

### *Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan*

Mae'r Fframwaith yn cefnogi amcanion Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan drwy hyrwyddo atal trosedd trwy geisio ailsefydlu troseddwyr.

Mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan yn hwyluso trafodaethau rhwng darparwyr gwasanaethau sydd wedi, a heb gael eu datganoli sy'n gweithio gydag unigolion sy'n troseddu. Mae aelodaeth y Bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr o Gwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLlTEM), Gwasanaeth Erlyn y Goron (GEG), y Swyddfa Gartref, yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, Comisiynwyr Heddlu a Throsedd (CHTh), Heddluoedd Cymru, Cymorth i Ddioddefwyr, Llywodraeth Cymru (LlC) a Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru.

Mae'r Bwrdd wedi cytuno ar amcanion ac mae gan y canlynol gysylltiad uniongyrchol â'r Fframwaith hwn:

- Lleihau Trosedd – atal trosedd, rhwystro troseddwyr sy'n troseddu am y tro cyntaf a lleihau'r nifer o ddioddefwyr trosedd;
- Gwella Hyder y Cyhoedd – gan gynnwys canfyddiadau ac ymgysylltu â'r cyhoedd, dioddefwyr a thystion;
- Cosbi Troseddwyr – sicrhau fod yna ganlyniadau i gyflawni trosedd;
- Amddiffyn y Cyhoedd – lleihau'r risg o ragor o droseddu difrifol;

- Gwneud Iawn – bod troseddwyr yn gwneud iawn am y drosedd maent wedi ei gyflawni;
- Lleihau Aildroseddu – stopio troseddu yn y lle cyntaf a stopio troseddwyr rhag cyflawni rhagor o droseddau;
- Bod yn Deg a Chyfiawn – cynnal y gyfraith, amddiffyn y diniwed a chosbi'r euog;
- Atebolrwydd – cryfhau cydweithio gyda gwasanaethau sydd wedi, a heb gael eu datganoli er mwyn lleihau aildroseddu.

***Bwrdd Rheoli Integredig Troseddwyr Cymru***

Mae Bwrdd Rheoli Integredig Troseddwyr Cymru yn adrodd yn ôl i Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan. Rôl y Bwrdd yw cefnogi a hwyluso datblygiad Rheoli Integredig Troseddwyr mewn ardaloedd lleol.

***Grŵp Lleihau Llwybrau Aildroseddu Cymru***

Cafodd Grŵp Lleihau Llwybrau Aildroseddu Cymru ei sefydlu o ganlyniad i'r gydnabyddiaeth gynyddol o'r flaenoriaeth a roddir i'r maes hwn yn Llywodraeth Cymru, er nad yw cyfiawnder troseddol wedi cael ei ddatganoli. Mae aelodaeth y grŵp yn cynnwys arweinwyr polisïau gwasanaethau sy'n helpu i ddarparu llwybr allan o aildroseddu. Caiff ei gadeirio ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi. Aelodau'r Grŵp yw:

- Cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru o Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Diogelwch Cymunedol;
- Cynrychiolwyr o Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi o'r Tîm Rheoli Troseddwyr a'r Tîm Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a'r Grŵp Perfformiad a Dadansoddi;
- Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru;
- Barnardos Cymru;
- Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru;
- Rhwydwaith Cyfiawnder Cymunedol Cymru.

***Gweithio mewn partneriaeth***

Bydd y Fframwaith yn gwella'r gwaith partneriaeth cryf sy'n bodoli yng Nghymru rhwng Llywodraeth Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, yr Heddluoedd, y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd, asiantaethau cyfiawnder troseddol yng Nghymru ac asiantaethau gwirfoddol y Trydydd Sector. Mae gan yr holl bartneriaid gyfrifoldeb i ddarparu gwasanaeth sy'n ymateb i anghenion troseddwyr unigol. Drwy ymgysylltu â'r Fframwaith hwn, bydd partneriaid yn gallu darparu gwasanaeth sy'n fwy amrywiol, holistaidd ac

sy’n seiliedig ar dystiolaeth, sy’n osgoi dyblygu ac sy’n targedu blaenoriaethau cyffredin.

### *Cynlluniau Heddlu a Throsedd*

Bydd y Fframwaith yn cefnogi Cynlluniau Heddlu a Throsedd ac yn benodol y blaenoriaethau hynny sydd ynddynt sy’n ceisio:

- atal a thaclo trosedd;
- lleihau niwed a’r risg o niwed;
- ymdrechu i amddiffyn yr unigolion mwyaf bregus yn ein cymunedau;
- amddiffyn pobl rhag niwed difrifol;
- datblygu partneriaethau effeithiol a gwella’r ffordd yr ydym yn cysylltu â’n cymunedau;
- gwneud y defnydd gorau o’r adnoddau sydd ar gael, gwario arian yn ddoeth er mwyn amddiffyn cymunedau; a
- sicrhau bod y system cyfiawnder troseddol lleol yn gweithio’n effeithiol ac yn effeithlon ac yn diwallu anghenion dioddefwyr a throseddwyr heriol.

Er gwybodaeth, dyma ddolenni i Gynlluniau Lleihau Trosedd cyfredol y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd:

- http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/en/
- http://www.gwent.pcc.police.uk/
- http://www.northwales-pcc.gov.uk/en/Home.aspx
- http://commissioner.south-wales.police.uk/en/

### *Diwygio Carchardai*

Ym mis Tachwedd 2016 cyhoeddodd Liz Truss, Ysgrifennydd Cyfiawnder Llywodraeth y DU bapur gwyn sy’n nodi’r camau y bydd Llywodraeth y DU yn eu cymryd i wneud carchardai’n ddiogel a’u diwygio.  Maent yn cynnwys:

- cymryd camau ar unwaith i daclo bygythiadau i ddiogelwch carchardai a newid diwylliant ein carchardai – buddsoddi rhagor o arian a newid ffyrdd o weithio fel bod troseddwyr yn cael eu paru â swyddogion ymroddedig penodol sydd wedi cael yr hyfforddiant priodol ac sydd â'r gallu i gynnig y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt;
- trawsnewid y system garchardai gyfan a rhoi fframwaith cyfreithiol clir mewn lle ar gyfer carchardai - rhoi sbardun newydd ar waith ar gyfer ymyrraeth ar frys gan yr Ysgrifennydd Cyfiawnder ar gyfer carchardai sy'n methu a rhoi mwy o bwerau i'r gyfundrefn archwilio;

- gosod safonau clir o ran yr hyn a ddisgwylir gan garchardai a rhoi awdurdod i bob llywodraethwr benderfynu sut maent yn darparu'r gwasanaethau hyn;
- creu ystâd garchardai modern, addas i'r pwrpas sy'n cynnig gobaith a chyfleoedd ac sy'n rhoi grym i droseddwyr - adeiladu ac agor chwe charchar newydd i ddynion sy'n oedolion, pum carchar cymunedol newydd ar gyfer merched a chychwyn y broses o agor mwy o garchardai newydd yn 2017.

Er gwybodaeth, dyma'r ddolen i'r papur:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachmentdata/file/565014/cm-9350-prison-safety-and-reform-web.pdf

***Symud Cymru Ymlaen 2016-2021***

Cafodd Rhaglen Lywodraethu Cymru ei chyhoeddi gan y Prif Weinidog ar 20 Medi 2016. Mae'n nodi sut bydd Llywodraeth Cymru yn darparu mwy a gwell swyddi drwy economi gryfach a thecach, sut bydd yn gwella ac yn diwygio ein gwasanaethau cyhoeddus a sut bydd yn datblygu Cymru unedig a chynaliadwy.

Mae yna gysylltiadau cryf rhwng y Fframwaith hwn ac amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Mae gweithio mewn partneriaeth, cydgomisiynu gwasanaethau a gweithio ar draws ffiniau yn ffordd bositif o sicrhau bod amcanion Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan yn cael eu diwallu, gyda chanlyniadau llwyddiannus i unigolion sy'n troseddu a'r cymunedau maent yn byw ynddynt.

***Cyd-destun Cymreig***

Er nad yw trosedd a chyfiawnder wedi cael eu datganoli i Gymru, mae yna sawl darn o ddeddfwriaeth a pholisïau yng Nghymru sydd wedi cael effaith uniongyrchol ar leihau trosedd a helpu i wireddu'r canlyniadau a nodir yn y Fframwaith hwn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Deddf Tai (Cymru) 2014 - http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/7/contents
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/contents
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents

- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 - http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/3/contents/enacted
- Strategaeth Gyntaf Plant a Phobl Ifanc (2014) - -http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/youthjustice/children-and-young-people-first/?lang=en
- Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed - Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau 2008-2018 - http://gov.wales/dsjlg/publications/commmunitysafety/strategy/strategy en.pdf?lang=en
- Law yn Llaw at Iechyd Meddwl: Strategaeth ar gyfer Iechyd Meddwl a Lles yng Nghymru - http://gov.wales/topics/health/nhswales/mental-health-services/policy/strategy/?lang=en
- Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu (2014)
- http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/equality/140512-hate-crime-framework-en.pdf
- Amcanion Cydraddoldeb (2016 – 2020) - http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/equality/160310-equality-objectives-2016-20-en-v1.pdf
- Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Cymru (2016) - http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/comm/160316-financial-inclusion-strategy-2016-en.pdf
- Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) http://www.assembly.wales/laid%20documents/pri-ld10862/pri-ld10862-e.pdf

***Rhesymau dros y Fframwaith hwn***

Amcangyfrifir bod aildroseddu yn costio £7-10 biliwn yn y DU. Mae cost economaidd trosedd yn helpu i danlinellu'r aflonyddwch y gall troseddwyr ei achosi i'w cymunedau. Golyga hyn, a'r angen i ddiogelu cymunedau rhag niwed, bod gofyn cael lefel ddwys o gefnogaeth ac adnoddau amlasiantaethol effeithiol er mwyn lleihau'r canlyniadau negyddol hyn o drosedd.
Yn ddiweddar, cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru adroddiad am effeithiau Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod[1]. Mae'r Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod sy'n gallu effeithio ar blentyn wrth iddynt fynd drwy eu bywydau yn cynnwys cam-drin alcohol, cam-drin cyffuriau, trais domestig,

[1] http://www.gpone.wales.nhs.uk/news/41957/

cam-drin rhywiol, cam-drin corfforol, cam-drin llafar, carchariad, rhieni'n gwahanu a salwch meddyliol.

Mae Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Comisiynwyr Heddlu a Throsedd Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r Fframwaith hwn yn ganllaw i sefydliadau er mwyn iddynt gyfeirio eu gweithgareddau a'u rhaglenni yn y meysydd blaenoriaeth a adnabuwyd.

Mae adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru yn datgan bod oedolion a gafodd eu cam-drin yn gorfforol neu'n rhywiol fel plant, neu a gafodd eu magu mewn cartrefi lle'r oedd yna drais domestig, camdriniaeth alcohol neu gyffuriau yn fwy tebygol o ddatblygu ymddygiadau gwrthgymdeithasol ac ymddygiadau sy'n achosi niwed i iechyd yn eu bywyd fel oedolyn. Mae oedolion sydd â mwy na 4 Profiad Niweidiol yn Ystod Plentyndod, o gymharu ag unigolion heb unrhyw Brofiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod:

- 14 gwaith mwy tebygol o fod wedi dioddef trais yn y 12 mis diwethaf;
- 15 gwaith mwy tebygol o fod wedi cyflawni trosedd yn erbyn unigolyn arall yn y 12 mis diwethaf; ac
- 20 gwaith mwy tebygol o fod wedi cael eu carcharu ar unrhyw bwynt yn ystod eu bywyd.

***Sut fydd Cymru yn gwella ac yn llwyddo***

Er mwyn lleihau'r nifer o unigolion sy'n mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol ac yn benodol, y nifer o'r rhai hynny o'r meysydd blaenoriaeth a adnabuwyd yn flaenorol, dylai asiantaethau ar draws Cymru ganolbwyntio ar y meysydd canlynol yn y dyfodol:

- **Atal/Ymyrraeth Gynnar –** Yng ngoleuni'r gwaith ymchwil i brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, gall gwasanaethau atal a ddarperir yn gynt yn y ddarpariaeth gwasanaeth arwain at well canlyniadau i'r defnyddiwr gwasanaeth. Mae gan ddarparwyr gwasanaethau gyfrifoldeb i fod yn rhan o'r broses cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau'r canlyniad mwyaf effeithiol i'r troseddwr.
- **Hyfforddiant Staff –** Bydd cymryd ymddygiad hanesyddol eu cleientiaid i ystyriaeth yn helpu staff i ddatblygu eu sgiliau pan fyddant yn ymateb i anghenion y defnyddwyr gwasanaeth. Gellir gwrthdroi effeithiau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod pan fydd perthnasau diogel, sefydlog a gofalgar yn cael eu meithrin, a bydd hyn gobeithio yn torri'r gylchred ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae yna amrywiaeth o

opsiynau hyfforddi eisoes ar gael gan gynnwys hyfforddiant adnabod trawma a datblygu hyfforddiant i weithio â throseddwyr sydd wedi cael eu heffeithio gan brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

- **Darpariaeth gwasanaeth integredig –** Drwy weithio'n effeithiol mewn partneriaeth fe ddarperir gwasanaethau cydlynol sy'n fwy cost effeithiol ac sy'n darparu gwell canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth. Bydd cydweithio'n fwy eang ac yn ddyfnach ar draws a rhwng gwasanaethau yn hanfodol yn hyn o beth. Mae hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth, rhannu'r dasg o gasglu data a sefydlu cyfathrebiadau effeithiol er mwyn rhannu arferion da rhwng asiantaethau.
- **Ymyrraeth ar sail tystiolaeth –** Gan amlaf, fe gyflawnir y canlyniadau gorau i unigolion, dioddefwyr a chymunedau drwy weithgareddau, trefniadau a gwasanaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sydd o ansawdd da ac sy'n benodol.
- **Ymatebolrwydd –** Dylai'r gwasanaethau ymateb i nodweddion ac amgylchiadau unigolion - oed, rhyw, ethnigrwydd, iechyd corfforol a meddyliol yn ogystal ag anableddau dysgu ac anhwylderau personoliaeth.
- **Adnoddau –** Mae argaeledd nawdd cynaliadwy yn bryder sylweddol nawr ac wrth edrych i'r dyfodol. Os ydym eisiau i'r Fframwaith hwn lwyddo, mae'n rhaid i ni allu adnabod y materion sydd wedi cyfrannu at unigolion ddod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol yn y lle cyntaf. Bydd hyn yn helpu i sicrhau gwell canlyniadau er mwyn lleihau trosedd, amddiffyn y cyhoedd a sicrhau'r gwerth gorau am arian.
- **Comisiynu –** Bydd comisiynu positif yn asesu'r angen a'r galw am wasanaethau gan droseddwyr, dioddefwyr a chymunedau. Bydd hyn yn hysbysu dewisiadau am sut i ddiwallu'r anghenion hynny, diogelu'r gwasanaethau cywir ar yr ansawdd a'r gost gywir ac adolygu darpariaeth ac effeithiolrwydd diwallu'r gofynion hynny.
- **Ailsefydlu –** Anogir darparwyr i gydlynu trefniadau ailsefydlu ar gyfer y rhai hynny sy'n cael rhyddhau o'r ddalfa. Gellir gwneud hyn drwy ganolbwyntio ar ddatblygu llety addas a chynaliadwy i droseddwyr; parhau â gwasanaethau i droseddwyr, yn benodol mewn perthynas ag addysg a hyfforddiant, triniaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddol, sydd yn aml iawn wedi dechrau yn y ddalfa.

### *Anghenion unigol troseddwyr*

O wybod fod gan lawer o droseddwyr fywydau anhrefnus â phroblemau cyn iddynt ddechrau troseddu, mae'n dilyn y bydd llawer o'r troseddwyr yn disgyn i nifer o'r meysydd blaenoriaeth a nodir yn y Fframwaith hwn. Mae gweithio gyda'r troseddwr ar eu hanghenion unigol mewn ffordd ddwys yn hanfodol er mwyn gallu herio a stopio'r ymddygiad troseddol. Mae rhai o'r materion

mwyaf cyffredin fydd yn effeithio ar y gwaith a wneir gyda'r troseddwr wedi cael eu nodi isod.

***Cydlyniant Cymunedol***

Mae Cydlyniant Cymunedol yn disgrifio sut y mae pawb o fewn ardal ddaearyddol yn byw ochr yn ochr â'i gilydd gan ddeall a pharchu ei gilydd. Rydym ni'n byw mewn cymunedau sy'n fwyfwy amrywiol, gan wynebu heriau oherwydd ymfudo economaidd, gwahaniaethau rhwng cenedlaethau, effaith tlodi a dylanwad cynyddol eithafiaeth. Mae polisïau cydlyniant cymunedol yn cydnabod yr heriau rydym yn eu hwynebu trwy annog integreiddio, gwerthfawrogi gwahaniaethau a chanolbwyntio ar y gwerthoedd cyffredin sy'n dod â phobl ynghyd. Wrth i'n cymunedau ddod yn fwy amrywiol, bydd rhaid i ni ystyried anghenion y cymunedau hyn, fel dioddefwyr trosedd ac os ydynt yn troseddu yn y dyfodol.

***Rhesymau dros Droseddu ac Aildroseddu***

Deallir bod nifer o ffactorau unigol neu gymdeithasol yn gysylltiedig â risg uwch o aildroseddu, a bod y rhain yn cael eu hasesu'n rheolaidd fel rhan o 'r ymarfer rheoli troseddwyr [2]. Maent yn cynnwys:

- Llety
- Addysg, Hyfforddiant a Chyflogadwyedd
- Ffordd o fyw a ffactorau cysylltiedig
- Perthnasau
- Camddefnyddio Cyffuriau
- Camddefnyddio Alcohol
- Meddwl ac Ymddygiad
- Agweddau

Mae ffactorau risg yn gweithredu'n wahanol i wahanol grwpiau, gan amrywio o ran cyffredinrwydd ac o ran perthnasedd i aildroseddu.

***Pam y mae Meysydd Blaenoriaeth wedi eu hadnabod?***

Mae gweithio mewn partneriaeth i ddiogelu cymunedau rhag niwed difrifol yn parhau i fod y prif amcan ac mae disgwyl y bydd yr egwyddorion gweithio mewn partneriaeth i gyflawni'r amcan cyffredin hwn yn parhau trwy gydol oes y Fframwaith hwn a thu hwnt.

[2] Andrews & Bonta (2010). The Psychology of Criminal Conduct, Anderson publishing

Teimlwyd mai'r grwpiau blaenoriaeth a adnabuwyd ac sydd wedi'u cynnwys yn y Fframwaith hwn oedd y meysydd oedd angen ffocws cyfunol gan y Grŵp Llwybrau Lleihau Aildroseddu yn 2016. Cydnabyddir efallai byddai meysydd blaenoriaeth eraill yn cael eu hadnabod trwy gydol oes y ddogfen hon. Os bydd hyn yn digwydd bydd rhaid i Grŵp Llwybrau Lleihau Aildroseddu Cymru drafod yr opsiynau ymarferol ar y pryd.

Adnabuwyd nifer o ddangosyddion i alluogi monitro canlyniadau sy'n ymwneud â bob maes blaenoriaeth unigol. Bydd y dangosyddion hyn yn cael eu hadolygu yn rheolaidd trwy gydol oes y Fframwaith i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn ymateb i'r gwaith a gyflawnir o fewn pob maes blaenoriaeth.

Bydd y meysydd blaenoriaeth a adnabyddir yn y fframwaith hwn wedi cael eu heffeithio gan lawer, os nad pob un, o'r ffactorau risg a nodir uchod, ac maent yn fwy tebygol o wedi cael eu heffeithio gan Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Golygai hyn mai nhw sydd â'r nifer fwyaf o broblemau ac sydd angen cefnogaeth fwyaf.

Nod y fframwaith yw darparu cefnogaeth i unrhyw droseddwyr sydd ei hangen, nid yn unig yn y meysydd blaenoriaeth - ar yr amser iawn, yn y lle iawn, ac yn y ffordd iawn - i sicrhau bod canlyniadau cadarnhaol yn cael eu cyflawni yn y tymor hir, nid yn unig ar gyfer troseddwyr ond y rhai hynny sydd ar fin troseddu, a'u teuluoedd.

***Meysydd Blaenoriaeth***

***A. Lleihau'r nifer o ferched yn y system cyfiawnder troseddol***

<u>Cefndir</u>

Mae adroddiad Corston yn dadlau bod canlyniadau cyfartal i droseddwyr sy'n ferched yn gofyn am ddull gwahanol o'i gymharu â throseddwyr sy'n ddynion. Mae'n nodi bod merched yn tueddu cyflawni gwahanol fathau o droseddau, bod ganddynt anghenion sy'n gysylltiedig â throseddu gwahanol a'u bod yn ymateb yn wahanol i ymyraethau.

Mae yna gynrychiolaeth fawr o ferched gyda hanes o drais neu gamdriniaeth, fel dioddefwyr ac fel cyflawnwyr, o fewn y system cyfiawnder troseddol, ac mae problemau gyda pherthnasau yn chwarae rhan bwysig yn eu llwybrau troseddu. Yn aml bydd ganddynt broblemau gydag iselder, pryder a hunan-niweidio yn y ddalfa, ac maent yn tueddu bod yn prif ofalwyr i blant neu

ddibynyddion eraill pan fyddant yn dod i mewn i'r System Cyfiawnder Troseddol[3]

Ers 2013, mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM, Llywodraeth Cymru, a Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd wedi gwneud cynnydd wrth weithio tuag at ddull system gyfan ar gyfer merched sy'n troseddu, gan fynd i'r afael â'r angen i gomisiynu gwasanaethau gwahanol i ferched.

Tystiolaeth o'r Angen

Mae llawer o'r merched a reolir gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf EM yn ddioddefwyr cam-drin domestig. Yn aml iawn, mae gan y nifer gymharol fychan o ferched sydd yn y ddalfa, neu sy'n cael eu goruchwylio yn y gymuned, anghenion cymhleth.

Ar gyfartaledd, mae merched yn cynrychioli 17% o'r arestiadau yng Nghymru (tua 22,500 o ddigwyddiadau y flwyddyn) a 19% o'r bobl sy'n cael eu harestio (tua 15,000 o unigolion y flwyddyn). Mae merched yn cynrychioli 12% o waith achos y Gwasanaeth Prawf yng Nghymru (tua 1800 o achosion).

Er bod gwaith eisoes wedi'i wneud gyda'r grŵp hwn o bobl, mae eu hanghenion cymhleth yn dangos bod angen rhagor o waith dwys i sicrhau bod troseddu ac aildroseddu yn lleihau. Mae mamau sydd yn y system cyfiawnder troseddol angen cefnogaeth i ddarparu rôl gref fel rhiant a pharhau i gefnogi eu plant pan fyddant yn dod i mewn i'r system cyfiawnder troseddol, yn enwedig pan fydd dedfryd o garchar yn cael eu rhoi.

Mae'n bosib bod anghenion merched o Gymru yn y ddalfa yn cael eu ffyrnigo gan nad oes carchar i ferched yng Nghymru. Mae cyfran uchel o'r merched o Gymru sy'n cael dedfryd o garchar yn bwrw eu dedfrydau yng ngharchar CEM Eastwood Park yn Swydd Gaerloyw neu yn CEM Styal yng Ngogledd Orllewin Lloegr, sef y ddau garchar i ferched sydd agosaf at Gymru.

Camau i'w gwella

- Deall y set arbennig o anghenion sydd gan ferched sy'n troseddu trwy barhau i ddatblygu dull sy'n canolbwyntio ar ferched ar draws Cymru gyfan;

[3] www.justice.gov.uk/publications/docs/corston-report-march-2007.pdf

- Cynnal asesiad cyfannol o'r angen, cyn gynted ag y bo modd, a fydd yn dilyn y ddynes trwy ei thaith p'un a ydyw'n daith trwy gyfiawnder troseddol neu fel arall;
- Gwella llwybrau cyfeirio a darparu ymyraethau yn amserol i roi cefnogaeth, hyder a hunangred i ferched wella eu bywydau a bywydau eu plant;
- Defnyddio cyfleoedd i alinio ail-gomisiynu gyda model Dull System Gyfan, a fydd yn galluogi newid cynaliadwy yn yr hirdymor.

<u>Dangosyddion Effeithiolrwydd</u>

- Nifer y merched sy’n dechrau dedfryd o garchar cymunedol ar unwaith;
- Cyfraddau cwblhau Gorchmynion Cymunedol, Gorchmynion Dedfryd Ohiriedig a Thrwyddedau yn llwyddiannus;
- Cyfradd o ferched sy’n aildroseddu;
- Nifer y troseddau ar gyfartaledd fesul pob dynes sy’n aildroseddu;
- Nifer a chyfran o ferched sy'n cyflawni dedfryd o garchar neu ddedfryd gymunedol gyda phob un o'r anghenion troseddol (yn seiliedig ar yr asesiad OASys diweddaraf);
- Nifer a chyfran o ferched sy’n defnyddio gwasanaethau cefnogol dargyfeirio.

***B. Herio cyflawnwyr camdriniaeth ddomestig; mynnu eu bod yn atebol am eu gweithredoedd a darparu ymyriadau a’u cefnogi i newid eu hymddygiad***

<u>Cefndir</u>

Bu i Lywodraeth Cymru danlinellu ac ailadrodd ei hymrwymiad i daclo trais yn erbyn merched, cam-drin ddomestig a thrais rhywiol trwy gyflwyno Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Cyn i’r Ddeddf gael ei chyflwyno, mae'n wir dweud roedd y mwyafrif o'r gefnogaeth a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru wedi cael ei ddarparu ar gyfer dioddefwyr a phlant oedd wedi cael eu heffeithio gan drais a chamdriniaeth.

Mae Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yn cydnabod nad oes modd taclo trais yn erbyn merched, cam-drin domestig na thrais rhywiol yn effeithiol heb weithio i atal cyflawnwyr rhag cam-drin eraill.

Tystiolaeth o'r Angen

Mae effaith a chyffredinrwydd cam-drin domestig wedi'i adnabod yn y system cyfiawnder troseddol drwyddi draw. Er bod oddeutu 30% o ddynion sydd yn y carchar yn cydnabod eu bod yn gyflawnwyr ac mae dros 50% o ferched yn datgelu eu bod yn ddioddefwyr, ni ddylid anghofio y gall merched fod yn gyflawnwyr hefyd a gall dynion fod yn ddioddefwyr.

Cyhoeddwyd darn o waith ymchwil arwyddocaol gan Brosiect Mirabal[4] ym mis Ionawr 2015. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod yna fylchau dal i fod, ac mae angen cynnal gwaith ymchwil pellach. Mae gweithio gyda chyflawnwyr yn parhau i fod yn faes ymarfer sy'n datblygu, lle mae angen datblygu'r sylfaen dystiolaeth nid yn unig yng Nghymru ond ar draws y DU ac Ewrop.

Mae partneriaid angen cydnabod ac ymateb i'r effaith y mae cyswllt â cham-drin domestig a thrawmâu eraill yn ei gael ar blant. Bydd hyn yn ffurfio rhan o'r asesiad anghenion cyfredol yn ogystal â darparu ymyrraeth yn y dyfodol i ddelio â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.

Camau i'w gwella

- Canolbwyntio ar amddiffyn, atal ac ymyrraeth gynnar i newid agweddau, darparu mynediad at gymorth yn gynharach a lleihau'r risg;
- Dadansoddi'r adnoddau cyfredol sy'n cael eu defnyddio gan bartneriaid ledled Cymru sy'n gweithio gyda chyflawnwyr i leihau dyblygu a chomisiynu gwasanaethau lle mae bylchau wedi'u hadnabod;
- Gwella llwybrau cyfeirio a chryfhau trefniadau gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod partneriaethau rheng flaen yn gallu ymyrryd yn gynt a mynd i'r afael â'r anghenion a ganfuwyd.

Dangosyddion Effeithiolrwydd

- Nifer y cyflawnwyr cam-drin domestig sy'n dechrau dedfryd o garchar neu ddedfryd gymunedol ar unwaith;
- Cyfraddau cwblhau Gorchmynion Cymunedol, Gorchmynion Dedfryd Ohiriedig a Thrwyddedau yn llwyddiannus;
- Cyfradd aildroseddu ymysg cyflawnwyr cam-drin domestig;
- Nifer y troseddau ar gyfartaledd fesul pob unigolyn sy'n aildroseddu;
- Nifer a chyfran y cyflawnwyr cam-drin domestig sy'n cyflawni dedfryd o garchar neu ddedfryd gymunedol sydd â phob un o'r anghenion troseddol;

[4] https://www.dur.ac.uk/criva/projectmirabal/

- Nifer yr erlyniadau ac euogfarnau llwyddiannus mewn achosion trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol gan gynnwys Trais ar sail Anrhydedd, Caethwasiaeth Fodern, Stelcio ac Aflonyddwch;
- Nifer a chyfran y cyflawnwyr cam-drin domestig sy'n cymryd rhan mewn ymyraethau.

***C. Gwella darpariaeth ar gyfer Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog (ex-ASP)***

<u>Cefndir</u>

Er bod ychydig o ddata cadarn yn bodoli ynghylch Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog yn y system cyfiawnder troseddol, yr amcangyfrif mwyaf dibynadwy o fewn y carchar a dan oruchwyliaeth yn y gymuned yw 3.5% a 3.4% o'r boblogaeth troseddwyr yn ôl eu trefn.[5] Fodd bynnag, mae amrywiaeth o ymchwil yn seiliedig ar hunangofnodi wedi amcangyfrif cyfraddau uwch.

Bu i Arolwg ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder wneud argymhellion i wella'r broses o adnabod Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog o fewn y system cyfiawnder troseddol a chynyddu gweithio mewn partneriaeth rhwng asiantaethau statudol a'r sector gwirfoddol i'w cefnogi'n well i leihau'r risg o droseddu ac aildroseddu.[6]

<u>Tystiolaeth o'r Angen</u>

Mae bywyd yn y Lluoedd Arfog fel arfer yn brofiad cadarnhaol ac yn ffactor sy'n gwarchod unigolyn rhag troseddu. Fodd bynnag, mae'r rhai hynny sy'n dod i mewn i'r system cyfiawnder troseddol, er eu bod yn eithaf tebyg i'r boblogaeth droseddu cyffredinol, yn fwy tebygol o ddioddef anawsterau iechyd meddwl neu broblemau iechyd corfforol.[7]

Ac yn hollbwysig, mae gan Gyn-aelodau'r Lluoedd Arfog fynediad at wasanaethau arbenigol ychwanegol. Fodd bynnag, mae ymchwil yn awgrymu eu bod yn llai tebygol o wybod lle i gael mynediad at gymorth na'r boblogaeth droseddwyr gyffredinol.

Mae plant a theuluoedd Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog yn fregus iawn oherwydd gwelir rhwystrau at gael mynediad at wasanaethau yn barod wrth fod yn aelod o deulu Cyn-aelod y Lluoedd Arfog.

---

[6] https://www.gov.uk/government/publications/former-members-of-the-armed-forces-and-the-criminal-justice-system

[7] http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/inspections/people-in-prison-ex-service-personnel-a-findings-paper-by-hm-inspectorate-of-prisons/

Mae cymuned y Lluoedd Arfog yn adlewyrchiad o’r gymdeithas ehangach, ac nid yw cam-drin domestig yn anghyffredin o fewn cymdeithas. Mae’n bwysig deall unrhyw faterion all gael effaith ar y risg o gyflawni cam-drin domestig neu ar ba mor fregus y mae dioddefwyr y grŵp hwn.

Camau i’w gwella

- Sefydlu’r broses o gasglu a rhannu data rhwng sefydliadau yng Nghymru a chomisiynu ymchwil i ddeall anghenion Cyn-aelodau’r Lluoedd Arfog sy’n gwrthdaro â'r System Cyfiawnder Troseddol yn well;
- Cyfeirio troseddwyr at elusennau a gwasanaethau arbenigol ar gyfer Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog ym mhob pwynt o fewn y system cyfiawnder troseddol pan fo'n ymarferol;
- Hyrwyddo mynediad at driniaeth iechyd meddwl neu driniaeth anhwylder straen ar ôl trawma trwy ddarparwyr gofal iechyd;
- Ystyried ymarferoldeb ymyraethau pwrpasol i gyflawnwyr cam-drin domestig sy’n Gyn-aelodau’r Lluoedd Arfog ac/neu eu teuluoedd;
- Sicrhau bod gan yr holl sefydliadau perthnasol fecanweithiau adnabod a chofnodi cadarn mewn lle;
- Cyhoeddiadau ymchwil a gwerthusiadau o safon am Gyn-aelodau’r Lluoedd Arfog, cyflawnwyr cam-drin domestig ac ymyraethau pwrpasol yng Nghymru.

Dangosyddion Effeithiolrwydd

- Nifer Cyn-aelodau’r Lluoedd Arfog sy’n dechrau dedfryd o garchar neu ddedfryd gymunedol ar unwaith;
- Cyfraddau cwblhau Gorchmynion Cymunedol, Gorchmynion Dedfryd Ohiriedig a Thrwyddedau yn llwyddiannus;
- Cyfraddau aildroseddu ymysg Cyn-aelodau’r Lluoedd Arfog;
- Nifer y troseddau ar gyfartaledd fesul pob unigolyn sy'n aildroseddu;
- Nifer a chyfran o Gyn-aelodau’r Lluoedd Arfog sy'n cyflawni dedfryd o garchar neu ddedfryd gymunedol gyda phob un o'r anghenion troseddol (yn seiliedig ar yr asesiad OASYS diweddaraf);
- Nifer y cyfeiriadau gan yr Heddlu, Darparwyr Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf i elusennau ar gyfer Cyn-aelodau’r Lluoedd Arfog.

***D. Darparu Cefnogaeth i Oedolion Ifanc/Unigolion sy'n Gadael Gofal***

Cefndir

Mae oedolion ifanc (18 – 25 oed) yn cynrychioli cyfran sylweddol o boblogaeth y carchar a'r rhai hynny sy'n cyflawni dedfrydau yn y gymuned. Mae gan oddeutu 24% o'r boblogaeth oedolion yn y carchar hanes o fod mewn gofal, ac mae'r ganran hon yn uwch i droseddwyr dan 21 oed, sef 49%[8]. Gall unigolyn sy'n gadael gofal sydd yn y system cyfiawnder troseddol fod gyda rhagor o anghenion personol, cymdeithasol ac anghenion sy'n ymwneud â throseddu. Mae carcharorion gyda llai o broblemau sy'n ymwneud â'u blynyddoedd cynnar yn llai tebygol o gael eu cyhuddo o drosedd eto.

Mae yna gysylltiad rhwng bod mewn gofal a throseddu oherwydd y mae nifer o'r un ffactorau risg wedi'u hadnabod ar gyfer y ddau. Mae'r profiad o fod mewn gofal yn aml yn gysylltiedig â phroblemau emosiynol a phroblemau iechyd meddwl hirdymor. Mae gan unigolyn sy'n gadael gofal llai o gysylltiadau cymdeithasol cadarnhaol, sy'n cael effaith oherwydd bod llawer o garcharorion yn credu bod cefnogaeth eu teuluoedd yn bwysig o ran eu hatal rhag aildroseddu.

Tystiolaeth o'r Angen

Mae troseddwyr sydd wedi treulio cyfnod o amser mewn gofal yn fwy tebygol o gael eu cyhuddo o drosedd eto o fewn 12 mis na throseddwyr nad ydynt wedi bod mewn gofal. Mae merched, dynion gwyn a charcharorion tymor byr yn fwy tebygol o fod wedi profi camdriniaeth, wedi bod mewn gofal ac/neu wedi bod yn dyst i drais yn y cartref fel plentyn.

O'u cymharu ag oedolion hŷn, mae dynion ifanc:

- Dal i aeddfedu;
- Mae'n anoddach i ymgysylltu â hwy;
- Maent yn fwy tebygol o aildroseddu;
- Maent yn fwy tebygol o gyflawni dedfrydau am droseddau treisiol neu feddiangar;
- Maent yn fwy tebygol o fod yn rhan o ladrad neu ddelio cyffuriau ar raddfa isel;
- Mae ganddynt ganlyniadau gwaeth (yn enwedig yn y carchar) oherwydd mae ganddynt gynrychiolaeth uchel mewn brwydrau; ac

[8] https://www.gov.uk/government/publications/prisoners-childhood-and-family-backgrounds

- Maent yn fwy tebygol o fod yn ddioddefwyr ymosodiad ac yn fwy tebygol o hunan-niweidio.[9]

Yn aml iawn, mae gan y rhai hynny sy’n syrthio i mewn i batrwm o ymddygiad troseddol tra maent yn y system cyfiawnder ieuenctid anghenion fwy cymhleth pan maent yn trosglwyddo i’r system oedolion. Rhaid mynd i’r afael â hyn cyn delio â’r aildroseddu.

Rhaid adnabod yr achosion hynny pan fo oedolion ifanc ac unigolion sy’n gadael gofal hefyd yn rhieni ifanc oherwydd bydd eu plant a’u teuluoedd angen cael mynediad at wasanaethau.

<u>Camau i’w gwella</u>

- Sicrhau bod troseddwyr yn gallu cael mynediad at gynlluniau sy’n darparu cefnogaeth ychwanegol a strwythur yn ystod y broses o drosglwyddo o’r carchar i’r gymuned;
- Adnabod rhaglenni strwythuredig a gwasanaethau o’r dechrau i’r diwedd sy’n gwella sgiliau meddwl, rheoli straen, ymlacio ac ymwybyddiaeth ofalgar, gyda’r nod o ddatblygu cysylltiadau cymdeithasol cadarnhaol gyda chefnogaeth gan sefydliadau cymunedol, mentora a chynlluniau cefnogol;
- Adnabod yr unigolion sy'n gadael gofal sydd yn y system i sicrhau bod yr awdurdodau cyfrifol yn chwarae rhan yn y prosesau cynllunio ar gyfer datblygu darpariaeth addysg a hyfforddiant a hefyd cynorthwyo i ddod o hyd i waith;
- Hwyluso gofod diogel i droseddwyr rannu eu profiadau o fod mewn gofal.

<u>Dangosyddion Effeithiolrwydd</u>

- Nifer yr oedolion ifanc sy'n dechrau dedfryd o garchar neu ddedfryd gymunedol ar unwaith;
- Cyfraddau cwblhau Gorchmynion Cymunedol, Gorchmynion Dedfryd Ohiriedig a Thrwyddedau yn llwyddiannus;
- Cyfraddau aildroseddu ymysg oedolion ifanc;
- Cyfraddau aildroseddu ymysg unigolion sy’n gadael gofal (y rhai hynny sydd wedi bod dan ofal gwasanaethau plant yr awdurdod lleol);
- Nifer y troseddau ar gyfartaledd fesul pob unigolyn sy'n aildroseddu;

[9] https://www.gov.uk/government/publications/youth-to-adult-transition-principles-and-guidance-for-wales

- Nifer a chyfran yr oedolion ifanc sy'n cyflawni dedfryd o garchar neu ddedfryd gymunedol sydd â phob un o'r anghenion (yn seiliedig ar y ddedfryd ddiweddaraf);
- Nifer a chyfran y troseddwyr sydd wedi bod dan ofal gwasanaethau plant yr awdurdod lleol ar unrhyw adeg sydd â phob un o'r anghenion (yn seiliedig ar yr asesiad OASys diweddaraf sydd ar gael) sy'n cyflawni dedfryd o garchar neu ddedfryd gymunedol;
- Nifer/cyfran yr oedolion ifanc sy'n cymryd rhan mewn ymyraethau.

***E. Cefnogi teuluoedd troseddwyr ar ôl dedfrydu***

Cefndir

Ystyrir bod teulu cefnogol a pherthnasau agos yn bwysig o ran helpu troseddwyr i beidio â chyflawni trosedd.[10] Fodd bynnag, mae ymgysylltu â theuluoedd y rhai hynny sydd yn y system cyfiawnder troseddol nid yn unig yn gadarnhaol i'r troseddwr, ond y teulu hefyd, yn enwedig plant.

Mae rhieni yn chwarae rôl ganolog mewn perthynas â chanlyniadau cadarnhaol i blant. Mae bod yn rhiant da yn gallu hybu gwydnwch, hunan-barch positif a chael effaith gadarnhaol ar ddysgu'r plentyn a chanlyniadau yn yr ysgol. [11]

Yn 2016, cyhoeddodd Grŵp Trawsbleidiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru adroddiad am Blant oedd wedi'u heffeithio gan gael Rhiant yn y Carchar.[12]

Mae plant sydd â rhiant yn y carchar[13]:

- Ddwywaith mwy tebygol na phlant eraill i brofi problemau ymddygiad neu broblemau iechyd meddwl;
- Llai tebygol o berfformio'n dda yn yr ysgol;
- Mwy tebygol o gael eu gwahardd o'r ysgol;
- Mwy tebygol o gael eu harestio a'u carcharu fel oedolion ifanc;
- Teirgwaith mwy tebygol o fod yn rhan o weithgaredd troseddu eu hunain; ac
- Bydd 65% o fechgyn sydd â thad yn y carchar yn mynd ymlaen i droseddu.

[10] www.gov.scot/Publications/2014/10/2518/4
[11] https://www.jrf.org.uk/sites/default/files/jrf/migrated/files/parenting-outcomes.pdf
[12] http://www.senedd.assembly.wales/documents/s49946/Report%20of%20the%20CPG%20on%20CAPI.pdf
[13] Murray, J (2003) tadau mewn carchar, sefydliad Troseddeg, Prifysgol Caergrawnt

## Tystiolaeth o’r Angen

Mae ymchwil gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid wedi dangos bod 58% o blant oedd wedi cyflawni trosedd wedi bod mewn cysylltiad ag aelodau o'r teulu neu ofalwyr oedd wedi bod yn rhan o weithgaredd troseddol[14]. Yn ogystal, mae cael rhiant yn y carchar yn darogan canlyniadau anffafriol, gan gynnwys anawsterau iechyd meddwl a throseddu rhwng cenedlaethau i blant.

O ganlyniad, mae cael rhiant sy’n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol ac yn enwedig pan fydd rhiant yn y carchar yn darparu cyfle i sefydliadau adnabod plant sydd mewn perygl o ganlyniadau anffafriol ac ymyrryd i leihau'r risg.

## Camau i’w gwella

- Gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd â rheini sy’n droseddwyr yn cael eu hadnabod pan fydd y rhiant yn cael ei arestio, yn cael ei ddedfrydu neu pan fydd yn cael ei garcharu;
- Ystyried ymarferoldeb cynnal asesiadau effaith plant yn y pwynt dedfrydu;
- Rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid amlasiantaethol i sicrhau bod yr ymyraethau perthnasol ar gael pan fo angen;
- Defnyddio’r holl gefnogaeth i rieni, cefnogaeth i blant a gwasanaethau cefnogol i deuluoedd sy'n cael eu darparu gan yr holl bartneriaid perthnasol;
- Cynnal peilot a gwerthuso defnyddio Asesiadau Effaith Plant yn y llys;
- Ymgysylltu ag asiantaethau perthnasol ac elusennau plant wrth ddatblygu gwasanaethau i deuluoedd troseddwyr yng Nghymru.

## Dangosyddion Effeithiolrwydd

- Nifer y troseddwyr gyda phlant yn cychwyn dedfryd yn y carchar neu ddedfryd gymunedol;
- Cyfraddau cwblhau Gorchmynion Cymunedol, Gorchmynion Dedfryd Ohiriedig a Thrwyddedau yn llwyddiannus;
- Cyfraddau aildroseddu troseddwyr sydd â phlant;
- Nifer y troseddau ar gyfartaledd fesul pob unigolyn sy'n aildroseddu;
- Nifer a chyfran y troseddwyr sy’n cymryd rhan mewn ymyraethau.

[14] **Ymgynghoriad Papur Gwyrdd ar gynigion i wella gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd mewn risg o fynd i mewn, neu sydd eisoes yn y system cyfiawnder ieuenctid 2012 - Atodiad A.**

### *F. Grwpiau Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig*

Cefndir

Bu i David Lammy AS arwain adolygiad o'r gynrychiolaeth uchel o ddiffynyddion o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig yn y system cyfiawnder troseddol. Gyda chynrychiolaeth sylweddol gan unigolion Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) yn y system cyfiawnder troseddol, bydd yr adolygiad yn ystyried eu triniaeth a'u canlyniadau i adnabod a helpu i daclo rhagfarnau posib.

Bydd y maes blaenoriaeth hwn yn annog sefydliadau i ystyried argymhellion yr adolygiad pan fydd yn cael ei gyhoeddi a cheisio gwella ein gwasanaethau i'r garfan hon gyda'n gilydd.

Ar hyn o bryd mae unigolion BAME yn cynrychioli dros chwarter o'r boblogaeth carcharorion - o'u cymharu â 14% o'r boblogaeth gyffredinol yng Nghymru a Lloegr. Mae'r ffigyrau diweddaraf hefyd yn dangos bod unigolion BAME yn cynrychioli nifer anghymesur o ddiffynyddion yn Llys y Goron (24%), ac mae'r rhai hynny sy'n eu cael yn euog yn fwy tebygol o gael dedfryd o garchar na throseddwyr gwyn (61% o gymharu â 56%).[15]

Tystiolaeth o'r Angen

Mae Adolygiad Young yn dangos y canlyniadau anghymesur a brofir gan ddynion ifanc du a/neu Fwslim. Yn y carchar, mae defnyddwyr gwasanaeth o darddiad du/cymysg yn fwy tebygol o gael eu hystyried mewn ffordd negyddol, yn treulio rhagor o ddyddiau ar wahân a bydd grym yn cael eu defnyddio yn eu herbyn yn amlach.

Yn ôl Adolygiad Young, mae yna lawer mwy o garcharorion ifanc sy'n ddynion du, Asiaidd neu o Leiafrif Ethnig (BAME) na rhai sy'n hŷn, gyda chynrychiolaeth BAME yn yr oedrannau 15-17 oed ar ei uchaf, sef 43.7%.

Camau i'w gwella

- Sicrhau bod cefnogaeth gan gyfoedion a chynlluniau mentora yn adlewyrchu amrywiaeth y poblogaethau y maent am eu gwasanaethu;
- Sicrhau bod cefnogaeth addas i rieni a theuluoedd yn hysbys ac yn cael eu defnyddio;

[15] http://www.youngreview.org.uk/

- Monitro lefelau ymgysylltu unigolion BAME gyda gwasanaethau iechyd, addysg a chyflogaeth sydd wedi'u comisiynu ar y cyd, sy'n anelu at leihau aildroseddu ac adnabod lle cheir cynrychiolaeth annigonol;
- Archwilio'r rhesymau dros gynrychiolaeth annigonol a datblygu strategaethau partneriaeth i gefnogi rhagor o ymgysylltu â gwasanaethau a datblygu gwasanaethau i ddiwallu anghenion unigol troseddwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

<u>Dangosyddion Effeithiolrwydd</u>

- Nifer y troseddwyr Du, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig sy'n cychwyn dedfryd o garchar neu ddedfryd gymunedol;
- Cyfraddau cwblhau Gorchmynion Cymunedol, Gorchmynion Dedfryd Ohiriedig a Thrwyddedau yn llwyddiannus;
- Cyfraddau aildroseddu ymysg troseddwyr BAME;
- Nifer y troseddau ar gyfartaledd fesul pob unigolyn sy'n aildroseddu;
- Nifer a chyfran yr unigolion BAME sy'n cyflawni dedfryd o garchar neu ddedfryd gymunedol sydd â phob un o'r anghenion (yn seiliedig ar yr asesiad OASys diweddaraf sydd ar gael);
- Y nifer a chyfran sy'n cymryd rhan mewn ymyraethau.

***Trefn Lywodraethu'r Fframwaith***

Cefnogir y Fframwaith gan Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan ac mae'n cydredeg â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), gan gynnwys gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Bydd y sefydliadau sy'n darparu'r gwasanaethau ac sy'n gweithio gyda'r troseddwyr yn gyfrifol am atebolrwydd y gwasanaethau o ddydd i ddydd. Felly, disgwylir y byddant yn dangos eu hymrwymiad i'r Fframwaith hwn a'u grwpiau blaenoriaeth o fewn eu cynlluniau gweithredu unigol. Fodd bynnag, bydd trefniadau Rheoli Troseddwyr Integredig yn parhau i fod y mecanwaith allweddol ar gyfer sefydliadau sy'n gweithio mewn partneriaeth yng Nghymru i gyflawni nodau. Felly, bydd y strwythur llywodraethu presennol a ddarperir gan Fwrdd IOM Cymru yn gweithredu fel mecanwaith ar gyfer datblygu Cynllun Cyflawni (cenedlaethol) IOM Cymru yn seiliedig ar y Fframwaith hwn, gyda chynlluniau gweithredu rhanbarthol yn sail i hwn ym mhob un o'r pedair ardal IOM rhanbarthol.

Bydd Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn monitro cyflawni yn erbyn y Fframwaith trwy Grŵp Lleihau Llwybrau Aildroseddu Cymru. Bydd cynnydd strategol yn cael ei fonitro yn erbyn y

dangosyddion a gytunwyd arnynt ar draws yr holl feysydd blaenoriaeth. Bydd y dangosyddion a adnabuwyd yn helpu i fesur effaith y Fframwaith.

Er mwyn i'r Fframwaith a'i ddangosyddion barhau i fod yn berthnasol ac yn ymatebol i drefniadau sefydliadol a threfniadau cyflawni newidiol y system cyfiawnder oedolion yng Nghymru, bydd yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n gyson i adlewyrchu'r prif raglenni diwygio wrth iddynt gael effaith ar ddarparu gwasanaethu cyfiawnder i oedolion yng Nghymru.